| Ymyrraeth | Cymunedau Cryf a Gwydn | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Nicola Prygodzicz / CS Tom Harding | Cyfnod Adrodd | Chwarter 1 2022-23 | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Rhwydweithiau Llesiant Integredig – Mae Cydweithredfa Pilgwenlli wedi dod â phobl ynghyd drwy amrywiaeth o raglenni Llesiant gan gynnwys creu Rhandir, Digwyddiad Iechyd a Llesiant, Teithiau tywys ar droed i aelodau 50+ y gymuned, Gwefan Pill Connects.

Mae Cydweithredfa Ringland hefyd wedi cryfhau a hyrwyddo digwyddiadau amrywiol gan gynnwys rhaglen hanner tymor o ddigwyddiadau yn yr Hyb Cymunedol, gerddi cymunedol yn Sterndale Bennet a Cecil Sharp Road, gweithgareddau lles mewn coetiroedd drwy Goed Lleol a grŵp sgyrsiau cymunedol.

Cwblhawyd yr ail raglen gyllidebu fawr i gefnogi prosiectau cymunedol ar gyfer adfer o Covid gyda chyllid o £415k wedi ei ddyrannu. Mae rhwydwaith cymorth i'r rhai sy'n derbyn grantiau wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo cydweithio pellach ac adeiladu capasiti.

Mae'r Uwchgynllun Pilgwenlli – The Urbanists a Mela Cymru wedi cwblhau cyfres o sgyrsiau gydag ystod o randdeiliaid ym Mhilgwenlli – gan gynnwys Pill Unity, y fforwm busnesau newydd, Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd, a phob sefydliad angor – i sefydlu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal ac i lunio'r uwchgynllun. Themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yw mannau gwyrdd a chyhoeddus, cyfleusterau/adeiladau cymunedol, adfywio Commercial Road, cyfleusterau ieuenctid, Pilgwenlli fwy diogel.

Mae cynllun peilot Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar ym Metws yn parhau i ddatblygu rhaglen waith gydweithredol gyda theuluoedd â phlant y blynyddoedd cynnar, gan uno'r ymweliadau â chartrefi gan wasanaethau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Pan gaiff ei ddatblygu'n llawn, bydd hyn yn arwain at lai o weithwyr proffesiynol yn ymweld â theuluoedd a gweithiwr allweddol yn cydlynu gwasanaethau, a bydd modd i aml-asiantaethau'n edrych ar gofnodion o'r ymweliadau hyn.

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirioneddol | COG |
|---|---|---|---|
| Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff mesurau eu cymeradwyo drwy'r broses hon. | | | |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Uwchgynllun Pillgwenlli – dechrau gwaith ymgysylltu â'r gymuned i wella iechyd a lles, mannau gwyrdd a chymorth busnes a buddsoddi.

Dechrau gweithio gydag iechyd i gwmpasu a chynllunio rhaglen cyllidebu cyfranogol 2022/23. Gweithio gyda Chomisiwn Tegwch Casnewydd i adolygu proses a chanlyniadau'r rhaglen cyllidebu cyfranogol.

Lansio porthol gwe Eich Lles Eich Casnewydd i hyrwyddo gweithgareddau, rhaglenni a chyfleoedd ledled Casnewydd.

Prosiect Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar - bydd yr ardal beilot yn y Betws yn ehangu i gynnwys Malpas, gan ehangu'r dull arloesol cyn y cyflwyno arfaethedig i'r ddinas gyfan.

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Allgáu digidol yn rhwystro cyfranogiad y cymunedau yr effeithir arnynt waethaf rhag cymryd rhan mewn rhaglenni ymgysylltu ar-lein e.e. cyllidebu cyfranogol | Isel | Rhaglen cyllidebu cyfranogol newydd i ddychwelyd i bleidleisio wyneb yn wyneb. |